




Cynllun Pensiwn
Llywodraeth Leol



Cronfa Bensiynau

CLWYD

Pension Fund

Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Cyfuno cyfrifon pensiwn a throsglwyddo buddion CPLIL i
Gronfa CPLIL arall: CGY Taflen Wybodaeth
Ebrill 2025

Tudalen Cynnwys

Cyfuno cyfrifon pensiwn a throsglwyddo buddion CPLIL i Gronfa CPLIL arall	3
Talu CGY cyn 1 Ebrill 2014:.....	3
Talu CGY ar 1 Ebrill 2014 neu wedi hynny:	3
Cymryd eich CGY fel cyfandaliad ar eich ymddeoliad.....	5
Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?	6
Ymwadiad.....	6

Cyfuno cyfrifon pensiwn a throsglwyddo buddion CPLIL i Gronfa CPLIL arall

Mae rhai aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL) yn penderfynu cynyddu gwerth eu buddion pensiwn drwy dalu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol (CGY). Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro beth yw'ch dewisiadau os ydych chi'n symud o un gronfa i'r llall yn y CPLIL neu'n symud o un swydd i'r llall yn yr un gronfa ac yn penderfynu throsglwyddo'ch buddion a'ch CGY i'ch cofnod pensiwn newydd.

Os ydych chi'n cael swydd newydd, fe gewch chi gofnod pensiwn newydd ar gyfer y swydd honno. Gallwch drosglwyddo'ch buddion yn y CPLIL o'ch hen gronfa i'r un newydd (neu gyfuno'ch cofnodion pensiwn os ydych chi'n dal yn yr un gronfa). Os ydych chi'n throsglwyddo eich prif fuddion yn y CPLIL a'ch bod wedi gwneud CGY, mae'n rhaid ichi drosglwyddo gwerth y rheiny hefyd. Yna bydd y darparwr y mae eich cronfa bresennol yn ei ddefnyddio'n gofalu am eich CGY. **Ceir eithriad i'r rheol honno, fodd bynnag:**

- Os buoch chi'n aelod o'r CPLIL o'r blaen ar 31 Mawrth 2014 ac 1 Ebrill 2014 **ac**
- Eich bod heb gael seibiant di-dor o fwy na phum mlynedd o fod yn *aelod gweithredol o gynllun pensiwn sector cyhoeddus

Gallwch ddewis peidio â throsglwyddo gwerth eich CGY i'r darparwr y mae'ch cronfa bresennol yn ei ddefnyddio.

*Bernir eich bod yn aelod gweithredol pan rydych chi'n talu cyfraniadau i'r cynllun pensiwn.

Talu CGY cyn 1 Ebrill 2014: Os dechreuoch chi dalu CGY yn eich swydd flaenorol cyn 1 Ebrill 2014, gallwch ddewis peidio â throsglwyddo eu gwerth. Byddai hynny'n golygu bod gwerth eich CGY yn aros yn eich cronfa flaenorol yn y CPLIL ac yn ohiriedig yn y gronfa honno.

Os ydych chi'n throsglwyddo gwerth eich CGY, unwaith y byddwch chi wedi symud i'r darparwr newydd fe gaiff ei drin fel contract newydd sbon dan reolau'r cynllun fel y bônt mewn grym ar y pryd.

Talu CGY ar 1 Ebrill 2014 neu wedi hynny: Os dechreuoch chi dalu CGY yn eich swydd flaenorol ar 1 Ebrill 2014 neu wedi hynny, a'ch bod wedyn yn throsglwyddo neu gyfuno eich prif fuddion yn y CPLIL o'ch swydd flaenorol i'ch cronfa newydd yn yr un Cynllun, mae'n rhaid ichi drosglwyddo gwerth eich CGY i'ch cofnod pensiwn gweithredol newydd gyda'ch cronfa newydd.

	Os cyfunir buddion gohiriedig â'ch cofnod pensiwn presennol	Os cedwir buddion gohiriedig ar wahân
Os dechreuoch chi dalu CGY cyn 1 Ebrill 2014	Os cyfunir eich buddion gohiriedig yn y CPLIL â gwerth eich buddion presennol yn yr un Cynllun, mae'n rhaid ichi hefyd drosglwyddo gwerth eich CGY i ddarparwr Cronfa Bensiynau Clwyd, Prudential. Os ydych chi'n trosglwyddo, caiff hyn ei drin fel contract CGY a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2014 neu wedi hynny, sy'n golygu: • Y gallwch dalu hyd at 100% o'ch cyflog misol yn Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (ar ôl didynnu eich cyfraniadau i'r prif gynllun pensiwn a'ch cyfraniadau yswiriant gwladol) • Fe allwch chi fel rheol gymryd hyd at 100% o'ch cronfa CGY fel arian di-dreth ar eich ymddeoliad ar yr amod eich bod chi o dan derfyn lwfans cyfandaliadau Cyllid a Thollau EF • Bod yr oedran ymddeol arferol ar gyfer derbyn buddion eich CGY yr un fath ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i chi	Os dewiswch gadw'ch buddion gohiriedig ar wahân, bydd eich CGY yn aros â darparwr y gronfa sy'n cadw eich cofnod pensiwn gohiriedig, ac ni fydd modd ichi drosglwyddo gwerth eich CGY i ddarparwr Cronfa Bensiynau Clwyd, Prudential. Caiff eich trefniant CGY ei drin fel contract CGY a ddechreuodd cyn 1 Ebrill 2014, sy'n golygu: • Os ydych chi'n cymryd eich CGY ar yr un pryd â'ch pensiwn, efallai y gallwch gymryd hyd at 100% o'ch CGY ar ffurf cyfandaliad di-dreth (gan ddibynnu a ydych chi'n gymwys ar gyfer hynny pan fyddwch chi'n ymddeol) • Y diogelir eich oedran pensiwn arferol (65 oed fel arfer)
Os dechreuoch chi dalu CGY ar 1 Ebrill 2014 neu wedi hynny	Os cyfunir eich buddion gohiriedig, mae'n rhaid ichi hefyd drosglwyddo gwerth eich CGY i ddarparwr Cronfa Bensiynau Clwyd, Prudential. Caiff eich contract CGY ei drin o hyd fel un a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2014 neu wedi hynny, sy'n golygu: • Y gallwch dalu hyd at 100% o'ch cyflog misol yn Gyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (ar ôl didynnu eich cyfraniadau i'r prif gynllun pensiwn a'ch cyfraniadau yswiriant gwladol) • Fe allwch chi fel rheol gymryd hyd at 100% o'ch cronfa CGY fel arian di-dreth ar eich ymddeoliad ar yr amod eich bod chi o dan derfyn lwfans cyfandaliadau Cyllid a Thollau EF • Bod yr oedran ymddeol arferol ar gyfer derbyn buddion eich CGY yr un fath ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i chi	Os dewiswch gadw'ch buddion gohiriedig ar wahân, bydd eich CGY yn aros â darparwr y gronfa sy'n cadw eich cofnod pensiwn gohiriedig. Caiff eich trefniant CGY ei drin fel contract CGY a ddechreuodd ar 1 Ebrill 2014 neu wedi hynny.

Cymryd eich CGY fel cyfandaliad ar eich ymddeoliad

Mae Cyllid a Thollau EF yn rhoi terfyn ar faint o gyfandaliad di-dreth y gallwch ei gymryd pan fydd eich pensiwn yn cael ei dalu i chi. Gelwir y terfyn hwn yn lwfans cyfandaliad.

Os ydych chi'n cymryd eich pot CGY ar yr un pryd â buddion eich prif gynllun, fe allwch chi fel rheol gymryd hyd at 100% ohono fel arian di-dreth. Gallwch wneud hyn ar yr amod nad yw eich cyfandaliad o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn fwy na:

- 25% o werth cyfalaf eich buddion, yn cynnwys eich pot CGY
- £268,275*
- £268,275* yn llai na chyfanswm y cyfandaliadau rydych chi wedi'u cymryd eisoes

*Os oes gennych chi warchodaeth Lwfans Oes ddilys, o bosibl y gallech gymryd cyfandaliad sy'n fwy na £268,275.

Gallwch ddarllen mwy am y lwfans cyfandaliadau yn ein taflen ffeithiau **cymryd cyfandaliad di-dreth pan fyddwch chi'n ymddeol** sydd ar gael dan adran **ffurflenni ac adnoddau** ar ein gwefan.

Ble allwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth?

Mae'r ffeithlen hon yn rhoi arweiniad cyffredinol yn unig. Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch, cysylltwch â Chronfa Bensiynau Clwyd:

Ffôn: 01352 702875

E-bost: pensiynau@sirymfflint.gov.uk

Cyfeiriad: Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Gwefan: <https://cronfabensiynauclwyd.org.uk>

Ymwadiad

Nid yw Cronfa Bensiynau Clwyd yn gallu darparu unrhyw gyngor ariannol. Ar ôl darllen y daflen ffeithiau hon, efallai y byddwch yn dymuno cael cyngor ariannol annibynnol i wneud penderfyniad cytbwys.

Efallai y gall y cyrff hyn eich helpu:

Unbiased:

<https://unbiased.co.uk> (mae'r ddolen yn mynd i wefan allanol felly bydd yn Saesneg).

Helpwr Arian:

<https://www.moneyhelper.org.uk/cy/getting-help-and-advice/financial-advisers/choosing-a-financial-adviser?source=mas>



cronfabensiynauclwyd.org.uk

Cronfa Bensiynau Clwyd, Tŷ Dewi Sant, Parc Dewi Sant, Ewloe, Sir y Fflint, CH5 3FF

Sylwer mai Cyngor Sir y Fflint yw awdurdod gweinyddu Cronfa Bensiynau Clwyd a'n bod yn defnyddio'ch data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data er mwyn darparu gwasanaeth gweinyddu pensiwn i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut y byddwn yn defnyddio eich data, gyda phwy y byddwn yn ei rannu a'r hawliau sydd gennych chi mewn perthynas â'ch data, darllenwch yr Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan.